

British Educational Research Journal
Cyf. 43, Rhif 1, Chwefror 2017, tud.(au) 68 – 94
DOI: 10.1002/berj.3252

Adolygiad systematig o ymyriadau addysgol ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal: Argymhellion ar gyfer datblygu a gwerthuso ymyriadau

Rhiannon Evans^{a,*}, Rachel Brown^a, Gwyther Rees^b a Philip Smith^c

^a DECIPHer, Prifysgol Caerdydd, y DU; ^b WISERD, Prifysgol Caerdydd, y DU; ^c CASCADE, Prifysgol Caerdydd, y DU

Mae plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal (LACYP) dan anfantais addysgol o gymharu â'r boblogaeth yn gyffredinol. Cynhaliwyd adolygiad systematig o hapdreialon rheoledig i werthuso ymyriadau wedi'u hanelu at LACYP ≤18 oed. Ni osodwyd cyfyngiadau ar y lleoliad darparu na'r asiant darparu. Canlyniadau'r ymyriadau oedd: sgiliau academaidd; cyflawniad academaidd a chwblhau graddau; statws addysg arbennig; cwblhau gwaith cartref; presenoldeb yn yr ysgol, gwahardd dros dro, a gadael; nifer y lleoliadau ysgol; y berthynas rhwng athrawon a myfyrwyr; ymddygiad yn yr ysgol; ac agweddau academaidd. Roedd pymtheg astudiaeth a oedd yn adrodd ar 12 ymyriad yn bodloni'r meini prawf ar gyfer eu cynnwys. Dangosodd naw ymyriad effeithiau posibl. Fodd bynnag, ni ellid canfod tystiolaeth o effeithiolrwydd oherwydd bod yr ansawdd methodolegol yn amrywio, fel y'i harfarnwyd gan offeryn risg tuedd Cochrane. Darperir argymhellion damcaniaethol a methodolegol i wella'r broses o ddatblygu a gwerthuso ymyriadau addysgol.

Allweddeiriau: gofal maeth; cartref grŵp; ymyriad; adolygiad systematig

Cyflwyniad

Mae plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal (LACYP) dan anfantais addysgol o gymharu â'r boblogaeth yn gyffredinol (Sebba et al., 2015). Maent yn llai tebygol o gwblhau addysg gynradd neu uwchradd (Berlin et al., 2011; Vinnerljung a Hjern, 2011; Sebba et al., 2015), ac mae eu cyrhaeddiad academaidd yn systematig is (Vinnerljung a Hjern, 2011; Berger et al., 2015). Gwelir effaith ar addysg uwch, wrth i'r rhai sydd mewn gofal maeth fod hanner mor debygol o gael gradd prifysgol neu gymhwyster cyfatebol erbyn iddynt gyrraedd 26 oed (Vinnerljung a Hjern, 2011). Adroddir hefyd am risg ormodol o ran absenoldeb o'r ysgol a gwahardd (Sebba et al., 2015), a bod merched sydd â phrofiad o ofal fwy na thair gwaith mor debygol o gael eu gwahardd yn barhaol (Viner a Taylor, 2005). Yn ogystal, mae amrywiaeth o bethau negyddol sy'n digwydd mewn bywyd, sy'n deillio o anfantais

addysgol yn ôl pob tebyg, yn fwy cyffredin ymhlith unigolion sydd wedi bod mewn gofal, gan gynnwys

*Awdur cyfatebol. Rhiannon Evans, DECIPHer, Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol, Prifysgol Caerdydd, CF10 3BD, y Deyrnas Unedig. E-bost: EvansRE8@cf.ac.uk. Enw defnyddiwr Twitter: @1RhiannonEvans

© 2016 Yr Awduron. *British Educational Research Journal* a gyhoeddwyd gan John Wiley & Sons Ltd ar ran Cymdeithas Ymchwil Addysgol Prydain.

Erthygl mynediad agored yw hon o dan delerau Trwydded Priodoliad Comin Creu, sy'n caniatáu defnyddio, dosbarthu ac atgynhyrchu, mewn unrhyw gyfrwng, cyn belled â bod y gwaith gwreiddiol yn cael ei ddyfynnu'n iawn.

diweithdra, digartrefedd a derbyn lles cymdeithasol (Viner a Taylor, 2005; Berlin et al., 2011).

Ychydig o ystyriaeth ddamcaniaethol ac empirig sy'n bodoli ynglŷn â'r rhesymau pam mae LACYP yn cael canlyniadau addysgol gwaeth, er bod rhai esboniadau wedi cael eu cynnig. Mae'r rhain yn cynnwys: mynediad cyfyngedig ac amrywiol at y system addysgol (Zetlin et al., 2006); ansefydlogrwydd o ran lleoliad cartref ac ysgol (Pecora, 2012; Sebba et al., 2015); rhwydweithiau teuluol a chymdeithasol gwan (Franzen a Vinnerljung, 2006; Berlin et al., 2011); a diffyg atebolrwydd neu fonitro canlyniadau academaidd gan y system ofal (Zetlin et al., 2006). Fodd bynnag, ceir llawer o ddadlau ynglŷn â pherygl effaith ddethol, a allai arwain at ddryswyr esboniadol sylfaenol (O'Higgins et al., 2015). Fel y mae Stone (2007) yn tystio, mae amrywiaeth o ffactorau nad ydynt ar hap, gan gynnwys camdriniaeth, amddifadedd economaidd-gymdeithasol, hil ac ethnigrwydd, sy'n rhagfynegi mynediad at ofal ond a allai hefyd esbonio anfantais addysgol yn annibynnol.

Ymyriadau addysgol effeithiol ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal gan y wladwriaeth: Sail dystiolaeth gyfyngedig

Er gwaethaf tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg sy'n awgrymu'r diffygion addysgol cymharol a brofir gan LACYP, erys prinder ymyriadau effeithiol wedi'u targedu'n uniongyrchol at y boblogaeth hon neu sy'n mynd i'r afael â nhw fel is-grŵp allweddol o fewn dulliau cyffredinol. Cyhoeddodd Forsman a Vinnerljung (2012) adolygiad cwmpasu, gan gyfyngu'r hyn a gynhwyswyd yn yr astudiaeth i hapdreialon rheoledig, lled-arbrofion a phrofi cyn ac ar ôl. Gwnaethant amlygu 11 gwerthusiad yn unig, gan ddod i gasgliadau petrus ynglŷn ag effeithiolrwydd ac awgrymu y gallai ymyriadau sy'n targedu'r boblogaeth hon gynhyrchu canlyniadau cadarnhaol o bosibl. Fodd bynnag, nodwyd nifer o gyfyngiadau.

Yn gyntaf, nid oes digon o ymyriadau wedi'u seilio ar ddamcaniaeth, a lle mae dulliau damcaniaethol wedi ennill cefnogaeth, fel y rhaglen diwtora Early Start to Emancipation Preparation (ESTEP), mae ymyriadau wedi bod yn aneffeithiol (Courtney et al., 2008; Zinn a Courtney, 2014). Felly, yn seiliedig ar yr ymchwil bresennol, yn ogystal â bod yn rhy gynnar i awgrymu bod canlyniadau addysgol yn agored i ymyriadau, mae hefyd yn amhosibl dod i gasgliadau ynghylch y mathau o ymyriadau a allai weithio orau.

Yn ail, mae effeithiau ymyriadau yr adroddwyd arnynt yn tueddu i ddeillio o ddigwyddiadau gwerthuso ar wahân ac ynysig, gydag enghreifftiau cyfyngedig o ailadrodd. Yr unig eithriad yw Teach Your Children Well, sydd wedi cael ei werthuso fel

dull unigol (Flynn et al., 2011; 2012; Marquis, 2013) a grŵp (Harper, 2012; Harper a Schmidt, 2012). O fewn cyd-destun lle mae gwyddor gwerthuso'n cael ei sbarduno fwyfwy gan y dywediad 'Yr hyn sy'n gweithio i bwy ym mha amgylchiadau' (Pawson a Tilley, 1997), yn hytrach na gofyn yn syml beth sy'n gweithio, mae'n hollbwysig mynd i'r afael â'r graddau y gall ymyriadau atgynhyrchu'r effeithiau a ddangoswyd yn yr arbrawf gwreiddiol a'r graddau y gallai fod angen addasiadau i weddu i nodweddion diwylliannol penodol.

Yn drydydd, ac efallai'n fwyaf sylfaenol, mae'r dystiolaeth bresennol o effaith yn dioddef o ganlyniad i ddiffyg manyldeb gwyddonol, gyda defnydd cyfyngedig o hapdreialon rheoledig sef, yn ôl pob tebyg, y fethodoleg fwyaf priodol i ateb cwestiynau ynghylch effeithiolrwydd (Mezey et al., 2015). Mae astudiaethau wedi cael eu tanseilio ymhellach gan feintiau sampl bach, ac mae llawer wedi methu darparu cyfrifiadau maint sampl, sy'n golygu nad yw'n eglur a yw gwerthusiadau'n ddigonol i ganfod meintiau effaith a ragwelir. O'u hystyried gyda'i gilydd, mae'r cyfyngiadau hyn yn awgrymu bod angen monitro ac arfarnu datblygiad a gwerthusiad ymyriadau addysgol ar gyfer y boblogaeth hon yn barhaus, ac amlygu enghreifftiau o arfer gorau, lle y bo'n bosibl, a allai weithredu fel templed ar gyfer astudiaethau yn y dyfodol sy'n gadarn yn fethodolegol.

Nodau'r adolygiad

Mae gan yr adolygiad systematig presennol ddau nod:

1. Cyfodod yn systematig dystiolaeth o effeithiolrwydd ymyriadau sy'n mynd i'r afael â chanlyniadau addysgol LACYP, fel y'u gwerthuswyd gan ddefnyddio hapdreialon rheoledig. Cyfyngwyd gwerthusiadau i ddefnyddio hapdreialon rheoledig gan fod y math hwn o astudiaeth yn cynhyrchu'r dystiolaeth o effaith sy'n fwyaf cadarn yn wyddonol.
2. Arfarnu ansawdd hapdreialon rheoledig sy'n gwerthuso ymyriadau sy'n mynd i'r afael â chanlyniadau addysgol LACYP, er mwyn nodi cyfyngiadau methodolegol, adnabod enghreifftiau o arfer gorau, a datblygu argymhellion ar gyfer cynnal ac adrodd yn y dyfodol.

Methodoleg

Cynhaliwyd yr adolygiad yn unol â'r datganiad PRISMA ar gyfer adrodd ar adolygiadau systematig (Shamseer et al., 2015).

Meini prawf cynnwys

Amlygwyd astudiaethau o 1989, i gyd-fynd â dechreuad y Ddeddf Plant yn y DU (1989), sy'n dyrannu rhwymedigaethau statudol i sicrhau bod plant yn cael eu diogelu. Amlygwyd hapdreialon rheoledig i'w cynnwys. Roedd y rhai a gymerodd ran yn yr astudiaeth yn cynnwys plant a phobl ifanc 18 oed neu iau a oedd yn derbyn gofal ar y pryd neu wedi derbyn gofal yn flaenorol. Roedd pob lleoliad darparu, asiant darparu, math o ymyriad a

hyd yn berthnasol. Ni osodwyd cyfyngiadau ar y grŵp cymharu. Roedd yn ofynnol i'r astudiaethau adrodd ar ystod o ganlyniadau addysgol: sgiliau academiaidd; cyflawniad academiaidd a chwblhau graddau; statws addysg arbennig; cwblhau gwaith cartref; presenoldeb yn yr ysgol, gwahardd dros dro, a gadael; nifer y lleoliadau ysgol; y berthynas rhwng athrawon a myfyrwyr; ymddygiad yn yr ysgol; ac agweddau academiaidd.

Strategaeth chwilio a ffynonellau gwybodaeth

Datblygwyd strategaeth chwilio yn Ovid MEDLINE cyn cael ei haddasu i swyddogaethau chwilio pob cronfa ddata. Defnyddiwyd MEDLINE i fireinio'r strategaeth oherwydd bod nifer o ymyriadau'n canolbwyntio'n bennaf ar brosesau datblygiadol a gwybyddol, ac roeddem eisiau sicrhau bod y chwiliad yn cynnwys y cyhoeddiadau hyn. Chwiliwyd deuddeg cronfa ddata lyfryddol electronig rhwng mis Rhagfyr 2014 a mis Mawrth 2015. Cyfyngwyd chwiliadau i'r iaith Saesneg. Cynhaliwyd chwiliadau yn: ASSIA (Proquest); British Education Index (Ebsco); CINAHL (Ebsco); Education Resources Information Center (Ebsco); Embase (OVID); Medline (OVID); Medline in Process (OVID); Social Care Online; Social Science Citation Index (Web of Science); Social Services Abstracts (Proquest); Scopus (Elsevier); PsycINFO (OVID). Cysylltwyd â phanel o arbenigwyr rhyngwladol i argymhell gwerthusiadau perthnasol sydd wedi'u cyhoeddi a heb eu cyhoeddi. Sganiwyd rhestrau cyfeirio astudiaethau a gynhwyswyd i amlygu astudiaethau ychwanegol. Awgrymodd adolygwyr llawysgrif yr astudiaeth wreiddiol astudiaethau i'w hystyried.

Dewis astudiaethau

Allforiwyd astudiaethau a adalwyd i Endnote a dilëwyd dyblygiadau. Roedd dau o awduron yr adolygiad yn gyfrifol am sgrinio teitlau a chrynodebau astudiaethau'n annibynnol yn erbyn y meini prawf cynnwys. Roedd trydydd adolygwr yn gyfrifol am ddyfarnu ynghylch anghysondebau yn y penderfyniadau. Roedd dau o awduron yr adolygiad yn gyfrifol am sgrinio testun llawn yr astudiaethau'n annibynnol. Datryswyd anghytundeb trwy drafod.

Tynnu data, eitemau data a mesurau crynhoi

Addaswyd ffurflen tynnu ac arfarnu data Cochrane i gynhyrchu ffurflen safonedig ar gyfer tynnu data. Roedd dau adolygwr yn gyfrifol am dynnu data. Roedd eitemau a gynhowyd yn cynnwys: demograffeg grŵp ymyriad; demograffeg grŵp rheoli; lleoliad a dyluniad ymyriadau; dyluniad yr astudiaeth; mesuriadau canlyniad; dulliau dadansoddi; data gwerthuso proses; data gwerthuso economaidd; effeithiau ymyriadau. Adroddwyd ar fesurau crynhoi addysgol yn y meysydd canlynol: sgiliau academiaidd; cyflawniad academiaidd a chwblhau graddau; statws addysg arbennig; cwblhau gwaith cartref; presenoldeb yn yr ysgol, gwahardd dros dro, a gadael; nifer y lleoliadau ysgol; y berthynas rhwng athrawon a myfyrwyr; ymddygiad yn yr ysgol; ac agweddau academiaidd. Nid oedd yr adolygiad wedi pennu mesuriadau o flaen llaw.

Risg tuedd

Defnyddiwyd offeryn cydweithredu Cochrane ar gyfer asesu risg tuedd mewn hapdreialon rheoledig i arfarnu astudiaethau (Higgins a Green, 2011). Roedd dau o awduron yr adolygiad yn gyfrifol am asesu risg tuedd. Y meysydd a aseswyd oedd: cynhyrchu dilyniant; celu dyraniad; dallu; cyflawnder data; ac adrodd canlyniad dewisol. Pennwyd p'un a oedd risg isel neu uchel o duedd yn gysylltiedig â phob maes. Barnwyd bod maes yn aneglur os nad oedd digon o fanylion. Cofnodwyd risgiau tuedd ychwanegol, megis drysu, hefyd.

Cyfodod y canlyniadau

Nid oedd yr astudiaethau'n ddigon unffurf, felly ni ellid cynnal meta-ddadansoddiad ac mae'r adolygiad wedi'i gyflwyno'n draethiadol.

Canlyniadau

Adalwyd 2,514 o astudiaethau trwy chwilio cronfeydd data llyfryddol electronig. Amlygwyd 16 astudiaeth trwy ymgynghori ag arbenigwyr. Cafwyd tair astudiaeth arall trwy sganio rhestrau cyfeirio. Ar ôl dileu dyblygiadau, roedd 1,620 o astudiaethau'n weddill. Aseswyd teitlau a chrynodebau astudiaethau. Eithriwyd 1,560 arall, gan adael testunau llawn 60 astudiaeth. Nid oedd pedwar deg chwech o bapurau'n bodloni'r meini prawf cynnwys, am y rhesymau canlynol: nid oedd yr astudiaeth yn canolbwyntio ar blant a phobl ifanc mewn gofal, naill ai fel y brif boblogaeth neu is-grŵp ($n = 11$); nid oedd yr ymyriad yn cynnwys canlyniadau addysgol ($n = 29$); nid oedd y gwerthusiad yn cynnwys hapdreial rheoledig ($n = 5$); ni ellid dod o hyd i un astudiaeth. Roedd un hapdreial rheoledig, sef Letterbox Club, a oedd wrthi'n cael ei gynnal tra bod y llawysgrif wreiddiol yn cael ei pharatoi, wedi adrodd ar ganfyddiadau yn ystod y broses adolygu ac fe'i cynhwyswyd wedi hynny. Cynhwyswyd pymtheg astudiaeth, a oedd yn adrodd ar 12 ymyriad addysgol, yn yr adolygiad.

Lleoliad yr ymyriad, asiant darparu, amseriad a hyd

Darparwyd un ymyriad mewn ysgol. Mae Kids in Transition to School yn rhaglen ystafell ddsbarth a ddarperir 2 fis cyn dechrau yn yr ysgol feithrin ac yn ystod y 2 fis cyntaf mynychu'r ysgol (Pears et al., 2013). Mae'r plant yn mynychu 24 sesiwn sy'n mynd i'r afael â sgiliau llythrennedd cynnar, sgiliau rhag-gymdeithasol a gweithgareddau hunan-reoliadol. Mae'r sesiynau'n cynnwys 12-15 o blant ac yn cael eu darparu am gyfnod o 2 awr, ddwywaith yr wythnos yn ystod y cam cyntaf, ac unwaith yr wythnos yn ystod yr ail gam. Mae gofawyr yn mynychu wyth cyfarfod cyfochrog a fwriedir i ddatblygu eu gallu i gynorthwyo'r plentyn i ymarfer sgiliau, arferion ac ymddygiad newydd. Darperir grwpiau am 2 awr bob pythefnos. Darperir sesiynau'r plant gan athro graddedig a dau athro cynorthwyol, a darperir y grŵp gofawyr gan hwylusydd a chynorthwy-ydd, gyda phawb yn cwblhau rhaglen hyfforddiant safonol 40 awr. Mae'r cyfranogwyr hefyd yn cael deunyddiau atodol i'w helpu i ddefnyddio eu sgiliau newydd.

Darparwyd un ymyriad yn y lleoliad gofal, lle'r oedd myfyrwyr israddedig a graddedig yn asiantau darparu. Yn rhan o'r rhaglen ESTEP, mae pobl ifanc yn cyfarfod â thiwtor ddwywaith yr wythnos yn y lleoliad gofal, ac yn cael hyd at 50 awr o diwtora mewn cwricwlwm mathemateg, sillafu, darllen a geirfa (Courtney et al., 2008; Zinn a Courtney, 2014). Mae'r tiwtoriaid yn cael un diwrnod o hyfforddiant wrth i'r ymyriad ddechrau a datblygiad parhaus ddwywaith y flwyddyn. Disgwylir perthynas fentora hefyd, wrth i'r bobl ifanc gaffael y sgiliau a'r profiad i ddatblygu perthnasoedd iach.

Darparwyd pum ymyriad gan ofalwyr yn y lleoliad gofal. Roedd tri yn fersiynau o'r dull Teach Your Children Well (Flynn et al., 2011; 2012; Harper, 2012; Harper a Schmidt, 2012; Marquis, 2013), ac roedd dau yn canolbwyntio ar Multidimensional Treatment Foster Care (Leve a Chamberlain, 2007; Green et al., 2014). Mae Teach Your Children Well ar lefel unigolyn yn canolbwyntio ar gyfarwyddyd uniongyrchol un i un gan ofalwyr maeth hyfforddedig (Flynn et al., 2011; 2012; Marquis, 2013). Mae'r ymyriad yn cynnwys 3 awr o gyfarwyddyd yr wythnos, sy'n cynnwys 2 awr o gyfarwyddyd un i un ar ddarllen, 30 munud o ddarllen ar goedd gan y plentyn maeth, a 30 munud o gyfarwyddyd mathemateg ar gyflymder y plentyn. Mae'r dull Teach Your Children Well ar gyfer grwpiau bach yn cynnwys un neu ddau fyfyrwr prifysgol hyfforddedig yn cyflwyno'r cwricwlwm i 3-4 o blant (Harper, 2012; Harper a Schmidt, 2012). Er bod y ddwy astudiaeth yn adrodd ar yr un gwerthusiad, mae'r dull Teach Your Children Well yn Harper a Schmidt (2012) yn para 25 wythnos a 30 wythnos yn Harper (2012). Mae Multidimensional Treatment Foster Care for Adolescents (MTFC-A) yn darparu hyfforddiant a goruchwyliaeth i rieni maeth arbenigol am gyfnod o naw mis, gyda chyfnod byr o ôl-ofal (Green et al., 2014). Mae'r ymyriad Multidimensional Treatment Foster Care (MTFC) yr adroddwyd arno gan Leve a Chamberlain (2007) wedi'i fwriadu ar gyfer merched ifanc sy'n gadael y system ieuenticid. Mae'r ymyriad yn golygu symud i leoliad maeth arbenigol am 174 diwrnod ar gyfartaledd.

Darparwyd un ymyriad yn y lleoliad gofal, ond nid oedd asiant darparu ac roedd yr addysg yn cael ei harwain gan y plentyn. Ymyriad rhoi anrhegion yw'r Letterbox Club sy'n darparu adnoddau addysgol personol, fel llyfrau, eitemau ysgrifennu a gemau mathemategol, i blant mewn gofal maeth (Mooney et al., 2016). Danfonir parseli i'r plentyn yn fisol yn ystod cyfnod o chwe mis. Nid yw'r ymyriad yn dibynnu ar gyfranogiad gofalwyr maeth, nac yn disgwyl neu'n mynnu hynny.

Roedd tri ymyriad yn ansafonedig o ran lleoliad, asiant darparu a hyd. Mae Head Start yn gyfres gyffwrdd, gofleidiol o wasanaethau a fwriedir i gynorthwyo plant cyn oed ysgol sydd dan anfantais. Dyma'r rhaglen addysg a gofal cynnar fwyaf a ariennir yn gyhoeddus yn yr Unol Daleithiau, ac felly mae wedi bod yn destun nifer o werthusiadau, ond mae Lipscomb et al. (2013) yn darparu'r dystiolaeth gyntaf o'r effaith ar blant nad ydynt yn derbyn gofal gan eu rhieni. Darperir y Fostering Individualized Assistance Program (FIAP) gan arbenigwyr teuluol sy'n gweithredu fel rheolwyr achos clinigol sy'n canolbwyntio ar y teulu a chwrselwyr cartref sy'n gweithio ar draws pob lleoliad yn teilwra gwasanaethau i blant unigol (Clark et al., 1998). Zetlin et al. (2004) adroddiad ar effaith cyflwyno arbenigwyr addysg. Mae'r arbenigwr, sy'n athro addysg arbennig ardystiedig sy'n gwybod am reolau a rheoliadau'r system ysgol a'r adnoddau sydd ar gael yn y gymuned leol, yn derbyn atgyfeiriadau gan asiantaethau lles plant pan na fydd gweithwyr cymdeithasol yn

gallu datrys anawsterau addysgol. Ar ôl derbyn atgyfeiriad, mae'r arbenigwr yn cynghori'r asiantaeth les, yn eirioli ar ran y person ifanc, ac yn ymchwilio i ddewisiadau ysgol amgen.

Roedd un ymyriad yn cael ei ddarparu i bobl ifanc a oedd wedi gadael gofal preswyl. Mae *On The Way Home* (Trout et al., 2013) yn ymyriad 12 mis i gynorthwyo pobl ifanc sydd ag anableddau, neu sydd mewn perygl o ddatblygu anableddau, wrth iddynt ailintegreiddio i'r cartref yn dilyn arhosiad mewn gofal allan o'r cartref. Mae ymgynghorydd teuluol hyfforddedig yn cael ei neilltuo i bob teulu sy'n darparu'r rhan fwyaf o'r ymyriad. Mae'r rhaglen yn integreiddio tri ymyriad: Check & Connect, lle mae'r ymgynghorydd yn gweithio gyda mentor yn yr ysgol i fonitro ymgysylltiad â'r ysgol a chyfathrebu â'r person ifanc a'i rieni i sicrhau ymrwymiad i nodau addysgol; Common Sense Parenting, sef cyfres o chwe sesiwn un i un i addysgu'r sgiliau y mae eu hangen ar rieni i gefnogi llwyddiant academaidd ac ymddygiadol; a chymorth gwaith cartref. Yn ystod cyfnod yr ymyriad, mae'r ymgynghorwyr teuluol yn treulio oddeutu 138 awr gyda phob teulu.

Pŵer astudiaeth

Er mwyn canfod effaith fwriadedig ymyriad, mae angen cyfrifiad pŵer i bennu maint priodol y sampl. Roedd pŵer digonol gan y gwerthusiad o'r ymyriad *Teach Your Children Well* unigol (Flynn et al., 2011; 2012; Marquis, 2013) a'r ymyriad *Teach Your Children Well* 30 wythnos ar gyfer grwpiau (Harper, 2012). Fodd bynnag, roedd Green et al. (2014) wedi cyfrifo sampl darged o 130 o gyfranogwyr er mwyn i'r hapdreial rheoledig gael cyfle 80% o ddod o hyd i wahaniaeth sylweddol, ond cyflawnwyd sampl o 34 yn unig. Roedd pŵer digonol gan y gwerthusiad o'r *Letterbox Club* i ganfod maint effaith leiaf o $d = 0.47$ (alfa = 0.05, wedi'i addasu a'i amcangyfrif $R^2 = 0.60$), ond yn seiliedig ar faint effaith ddisgwyliedig o rhwng 0.20 a 0.30, nid oedd gan y treial bŵer digonol (Mooney et al., 2016). Nid oedd y naw astudiaeth a oedd yn weddill wedi adrodd ar gyfrifiad pŵer.

Risg tuedd

Cyflwynir lefel y risg ar draws y 15 astudiaeth yn Nhabl 1.

Cynhyrchu dilyniant ar hap. Nid oedd saith astudiaeth wedi adrodd ar ddefnyddio cynhyrchu dilyniant ar hap yn y broses dewis ar hap. Adroddodd wyth astudiaeth eu bod wedi defnyddio rhaglenni dewis ar hap.

Celu dyraniad. Nid oedd pedair astudiaeth ar ddeg wedi adrodd ar gelu dyraniad. Roedd Green et al. (2014) wedi dewis ar hap yn ôl sgema dewis ar hap rhagddiffiniedig, a chynhaliwyd y broses yn annibynnol gan grŵp ystadegol gwahanol.

Dallu cyfranogwyr neu bersonél. Mewn ymyriadau cymdeithasol, mae dallu'n anymarferol yn aml. Felly, er bod yr astudiaethau'n aneglur ynghylch faint o wybodaeth oedd gan unigolion am statws eu treial, gallwn dybio lefel o risg.

Dallu canlyniad asesiad. Roedd tair ar ddeg o astudiaethau'n aneglur ynghylch p'un a oedd gwerthuswyr wedi'u dallu wrth asesu canlyniadau. Roedd gan ddwy astudiaeth lefel is o risg. Roedd Green et al. (2014) yn datgan bod mesurau canlyniad wedi cael eu codio a'u cuddio i ddyraniad grŵp, a bod data wedi cael ei gronni a'i driongli ar draws adroddiadau, cofnodion a chyfweliadau ffôn er mwyn lleihau'r duedd adrodd gymaint â phosibl. Mae Pears et al. (2013) yn adrodd bod yr holl staff casglu data yn ddall i aseiniad plant a gofalwyr mewn grwpiau.

Data canlyniad anghyflawn. Barnwyd bod gan saith astudiaeth risg isel o duedd gyda chyfradd gadw o fwy nag 80% yn yr asesiad dilynol. Lle'r oedd data ar goll mewn perthynas ag un neu fwy o newidynnau canlyniad, defnyddiwyd dadansoddi'n aml i ddarparu amcangyfrifon diduedd. Barnwyd bod gan saith astudiaeth risg uchel o duedd naill ai oherwydd cyfradd gadw o lai nag 80% yn yr asesiad dilynol, anghydwysedd data anghyflawn ar draws grwpiau ymyriad a rheoli, neu fethiant i gynhyrchu amcangyfrifon diduedd o ddata a oedd ar goll wrth ddadansoddi. Roedd un astudiaeth yn aneglur ynghylch cyflawnder y data ar ganlyniadau.

Adrodd ar ganlyniad dewisol. Nid oedd unrhyw astudiaethau wedi amodi bod protocol yn cael ei gyhoeddi cyn yr adolygiad, ac ni ellid dod o hyd i unrhyw brotocolau. Felly, mae'n aneglur a adroddwyd ar yr holl ganlyniadau.

Drysu. Er y dylai haptreialon rheoledig osgoi drysu, oherwydd yr ymyriad yw'r unig wahaniaeth sylweddol rhwng yr ymyriad a'r

Tabl 1. Asesiad risg tuedd

| | Cynhyrchu dilyniant ar hap | Celu dyraniad | Dallu cyfranogwyr neu bersonél | Dallu canlyniad asesiad | Data canlyniad anghyflawn | Adrodd ar ganlyniad dewisol |
|--|----------------------------------|---------------|--------------------------------------|-------------------------------|------------------------------|--------------------------------------|
| Clark et al. (1998) | Isel | Aneglur | Uchel | Aneglur | Isel | Aneglur |
| Courtney et al. (2008). Zinn a Courtney 2014 | Aneglur | Aneglur | Uchel | Aneglur | Uchel | Aneglur |
| Flynn et al. (2011); Flynn et al. 2012); Marquis (2013) | Isel | Aneglur | Uchel | Aneglur | Uchel | Aneglur |
| Roedd Green et al. 2014 | Isel | Isel | Uchel | Isel | Uchel | Aneglur |
| Harper (2012) | Isel | Aneglur | Uchel | Aneglur | Isel | Aneglur |

| | | | | | | |
|---------------------------|---------|---------|-------|---------|---------|---------|
| Harper a Schmidt (2012) | Isel | Aneglur | Uchel | Aneglur | Isel | Aneglur |
| Leve a Chamberlain (2007) | Aneglur | Aneglur | Uchel | Aneglur | Isel | Aneglur |
| Lipscomb et al. (2013) | Aneglur | Aneglur | Uchel | Aneglur | Aneglur | Aneglur |
| Mooney et al. (2016) | Isel | Aneglur | Uchel | Aneglur | Isel | Aneglur |
| Mae Pears et al. (2013) | Aneglur | Aneglur | Uchel | Isel | Isel | Aneglur |
| Trout et al. (2013) | Aneglur | Aneglur | Uchel | Aneglur | Isel | Aneglur |
| Zetlin et al. (2004) | Aneglur | Aneglur | Uchel | Aneglur | Uchel | Aneglur |

grŵp rheoli, roedd gwahaniaethau sylfaenol yr adroddwyd arnynt, ynghyd â gweithdrefnau annigonol ar gyfer dewis ar hap, yn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn risg. Dim ond pedair astudiaeth a reolwyd ar gyfer amrywiaeth o gyd-newidynnau wrth ddadansoddi (Leve a Chamberlain, 2007; Lipscomb et al., 2013; Pears et al., 2013; Trout et al., 2013). Rheolwyd saith astudiaeth ar gyfer sgorau gwaelodlin o'r mesur canlyniad (Flynn et al., 2011; 2012; Harper, 2012; Harper a Schmidt, 2012; Marquis, 2013; Green et al., 2014; Mooney et al., 2016). Nid oedd pedair astudiaeth wedi adrodd ar reoli ar gyfer cyd-newidynnau (Clark et al., 1998; Zetlin et al., 2004; Courtney et al., 2008; Zinn a Courtney, 2014).

Llygru. Er nad oedd llygru wedi cael ei archwilio ar draws pob astudiaeth, roedd byrhoedledd y sampl ac ymwybyddiaeth gyfyngedig o statws treial pobl ifanc gan asiantau darparu yn sicrhau ei fod yn risg. Yn y gwerthusiad o'r rhaglen ESTEP roedd 12.3% o'r grŵp rheoli wedi derbyn yr ymyriad (Courtney et al., 2008; Zinn a Courtney, 2014). Yn ogystal, roedd 18.9% o'r grŵp rheoli wedi derbyn tiwtora yn yr ysgol gan ddarparwr nad oedd yn rhan o'r rhaglen ESTEP yn ystod y treial. Roedd llygru wedi tansilio'r bwriad arfaethedig i drin dadansoddiad.

Canlyniadau gwerthusiadau o ymyriadau

Cyflwynir canlyniadau addysgol ymyriadau yn Nhabl 2.

Sgiliau academaidd. Aseswyd sgiliau academaidd, sef darllen a chyfrifiannu mathemategol yn bennaf, mewn naw ymyriad ar draws deuddeg astudiaeth. Defnyddiwyd dau fesur wedi'u dilysu fel mater o drefn, gyda phump yn defnyddio'r Prawf Cyflawniad Ystod Eang (WRAT-4) a thri yn defnyddio Profion Cyflawniad III Woodcock Johnson. Defnyddiodd Pears et al. (2013) y Dangosyddion Deinamig Sgiliau Llythrennedd Cynnwr Sylfaenol (DINELS), y Prawf Cysyniadau ynghylch Print, a sgorau rhoddwyr gofal. Defnyddiodd Green et al. (2014) Raddfeydd Canlyniadau Iechyd y Genedl ar gyfer Plant a Phobl Ifanc

(HoNOSCA). Defnyddiodd Mooney et al. (2016) brawf Dadansoddi Gallu Darllen Neale (Neale, 1997). Nid oedd Zetlin et al. (2004) wedi adrodd ar sut y lluniwyd y mesur.

Canfu saith astudiaeth a oedd yn adrodd ar bum ymyriad rywfaint o dystiolaeth o effeithiolrwydd. Mesurodd y rhaglen Kids in Transition to School sgiliau llythrennedd cynnar plant chwech oed ac iau, gan ddod o hyd i effaith fach o 0.26 (Pears et al., 2013). Canfu Head Start effaith 6 mis ar ôl y waelodlin hefyd ($\beta = 0.16$, $p = 0.02$), yr adroddwyd ei bod yn arwyddocaol. Ddeunaw mis ar ôl y waelodlin, nid oedd unrhyw effaith uniongyrchol arwyddocaol o'r ymyriad, ond roedd effaith anuniongyrchol gymedrol, gyda gwelliant mewn sgiliau cyn-academaidd, sefydlu perthnasoedd cadarnhaol rhwng yr athro a'r plentyn, a newid mewn problemau ymddygiad yn ystod dechrau Head Start a oedd yn rhagfynegi sgiliau cyn-academaidd uwch yn y flwyddyn ganlynol (Lipscomb et al., 2013).

Adroddodd yr ymyriad Teach Your Children Well unigol (Flynn et al., 2011; 2012; Marquis, 2013) am effeithiau cadarnhaol ar ddeall brawddegau (E.S. = 0.38, $p = .035$) a chyfrifiannu mathemategol (E.S. = 0.46, $p = .009$). Nid oedd unrhyw effaith arwyddocaol ar ddarllen geiriau neu sillafu. Er gwybodaeth, mae Flynn et al. (2011; 2012) yn adrodd ar 'g' Hedges, a gynhwyswyd yn yr adolygiad hwn yn hytrach na 'd' Cohen a gyflwynwyd ym Marquis (2013), gan eu bod yn fwy priodol i feintiau sampl bach. Fodd bynnag, maent yn darparu amcangyfrif mwy ceidwadol o effaith. Cynhaliodd Marquis (2013) ddadansoddiad ychwanegol ac ystyriodd p'un a oedd y plentyn yn cael ei addysgu'n unigol neu mewn pâr o frodyr a chwiorydd. Adroddwyd bod plant unigol yn dangos gwelliannau arwyddocaol o ran darllen geiriau, deall brawddegau, darllen cyfansawdd a mathemateg, tra bod parau o frodyr a chwiorydd yn dangos arwyddocâd o ran cyfrifiannu mathemategol yn unig. Canfu'r gwerthusiad fod ADHD, iechyd meddwl ac ymddygiad mewnol ac allanol, fel y'u diffinnir gan y Rhestr Wirio Ymddygiad Plentyn, yn cymedroli'r berthynas rhwng yr ymyriad a sgiliau academaidd.

Roedd yr ymyriad Teach Your Children Well 25 wythnos ar gyfer grwpiau yn asesu sgiliau academaidd hefyd, er nad yw WRAT-4 wedi cael ei ddilysu i'w ddefnyddio gyda'r boblogaeth frodorol, sef mwyafrif sampl yr astudiaeth (Harper a Schmidt, 2012). Canfu'r astudiaeth effaith sylweddol ar ddarllen (E.S. = 0.42, $p = .002$) a sillafu (E.S. = 0.38, $p = .004$), ond nid deall brawddegau na chyfrifiannu mathemategol, er bod yr olaf wedi dod o fewn yr amrediad sylweddol bwysig. Harper (2012)

Tabl 2. Hapdreialon rheoleddig o ymyriadau addysgol

| Astudiaeth Gwlad Ymyriad Grŵp cymharu | | Adroddiad ôl-Canlyniadau Cyd-newidynnau | |
|---------------------------------------|--|---|--|
| Clark et al. (1998) | UDA Fostering Individualized Assistance Program (FIAP) | Gofal maeth 7-11 n=54 | Grŵp cartref maeth; Grŵp cartref lloches frys; Canolfan gadw/cyfleusterau gofal plant 7-11 n=42, 77 |
| | | | Heb ei adrodd |
| | | | ysgol eithaf 40% diwrnodau ysgol wedi'u ns; |
| | | | Gadael yr ysgol (> 1% diwrnodau ysgol); ns; |
| | | | Diwrnodau ar waharddiad: OR= 2.5 p < .05; |
| | | | Nifer eithafol o symudiadau ysgol i ysgol (> 3/4 blynedd); |
| Courtney (2008) | UDA Early Start to Emancipation Preparation ESTEP | Gofal maeth; Gofal gan Grŵp cartref; Gofal preswyl arall. oed 14-15 n=246 | Mis ar gyfartaledd dinabod llythrennaŷ a E.S.= 0.10 |
| Courtney (2014) | (| Gofal maeth; Gofal gan Grŵp cartref; Gofal preswyl arall. oed 14-15 n=219 | Cyfrifo: ; E.S.= 0.01 Deall darn: ; E.S.= 0.01 Lefel gradd a gwblhawyd: E.S.= 0.03 ; GPA: E.S.= 0.03 Diploma ysgol uwchradd neu GED: ; E.S.= 0.01 Y mddygiad yn yr ysgol: E.S.= 0.05 |
| | | | Heb ei adrodd |

Tabl 2. (Parhad)

| Astudiaeth Gwlad Ymyriad Grŵp ymyriad Grŵp cymharu | | Adroddiad ôl-Canlyniadau Cyd-newidynnau | | |
|--|--|---|---|---|
| | | wths Darllen geiriâu | Sgorau gwaelodlin | |
| Flynn et al. (2011) | Canada Teach Your Children | Gofal maeth: 6- n 3 42 | Gofal maeth: 6- n 3 35 | E.S. = 0.19 p = .19 Deall brawddegau: E.S. = .038 p = .035 Sillafu: E.S. = .008 p = .37 |
| Flynn et al. (2012) | Well (TYCW) | | | |
| Marquis (2013) | | | 30 | |
| Green et al. (2014) | DU Multidimensional Treatment Foster Care (MTFC-A) | Gofal maeth; 10- n 7 20 | Gofal maeth; Gofal preswyl; Uned ddjogel 10- n 7 14 | Cyfrifiannu math: E.S. = .46 p = .009 mis Sgiliau : addysgOR= 0.6 (%CI 0.15,2.4) 95 Presenoldeb ysgol: OR= 2.5(.95, 13.1) CI = 0.48,13.1 |
| Harper (2012) | Canada Teach Your Children Well TYCW Wytinos (30) | Gofal maeth; Gofal gan 6- n 3 51 | Heb eiddod 6- n 3 50 | Sgorau gwaelodlin wths Darllen geiriâu E.S. = 0.40 Deall brawddegau: E.S. = 0.15 p = ns; Sillafu: E.S. = 0.25 p = .02 Cyfrifiannu math E.S. = 0.34 p = .044 |

Tabl 2. (Parhad)

| Astudiaeth Gwlad Ymyriad Grŵp ymyriad Grŵp cymharu | | Adroddiad ôl-Canlyniadau Cyd-newidynnau | |
|--|---|--|------------------------|
| Harper a Schmidt (2012) | Canada Teach Your Children Wylfros (CW) | Gofal maeth; Gofal gan 6-13 n=33 | Heb eiddrodd 6-13 n=35 |
| | (25) | | 25 |
| Leve a Chamberlain (2007) | UDA Multidimensional Treatment Foster Care MTFC | Merched yn y system ieuengid; 13-17 n=37 | Gofal grŵp; 13-17 n=44 |
| | () | | |
| | | 3-6 mis; 6 mis; 12 mis | 3-6 mis; 6 mis; 12 mis |
| | | | Sgorau gwaelodl |
| | | | Sgorau gwaelodl |

Tabl 2. (Parhad)

| Astudiaeth Gwlad Ymyriad Grŵp ymyriad Grŵp cymharu | | Adroddiad ôl-Canlyniadau Cyd-newidymau | |
|--|---|---|---|
| Lipscomb etal. (2013) | <p>UDA Head Start Heb fod yng ngofal rhieni; 3- oed n⁴ = 154</p> | <p>Heb fod yng ngofal rhieni; 3- oed n⁴ = 99</p> | <p>mis 6</p> |
| | | 18 | <p>Sgiliau cyn-academaidd: β. = 0.16 p= .02 Perthynas rhwng yr athro a'r mis effeithiau. < .01</p> |
| | | | <p>Rhyw; Anghenio arbenig Darllen; Incwm y cartref; Arddull Newid gofialwr</p> |
| | | 18 | <p>anuniong Sgiliau cyn-academaidd: β. = 0.12 p= .05 Perthynas rhwng yr athro a'r mis. β. = 0.17 p= .02</p> |

Tabl 2. (Parhad)

| Astudiaeth Gwlad Ymyriad Grŵp ymyriad Grŵp cymharu | | Adroddiad ôl-Canlyniadau Cyd-newidynnau | |
|--|--|---|---|
| Mooney et al. (2016) | DU Letterbox Club Gofal Maeth 7- oed n = 56 | Cyf. 8 mis | Sgorau gwaelodl |
| | | | Cywirdeb darllen: % E.S. = 0.068 (95 CI= 0.296, 0.432) |
| | | | Darllen a deall: E.S. = 0.031 (95 CI = 0.395, 0.333) |
| | | | Cyfradd ddarllen: E.S. = 0.233 95 CI= 0.598, 0.133) |
| | | | Darllen er pleser: % E.S. = 0.115 (95 CI= 0.480, 0.249) |
| | | | Darllen academaidd: E.S. = 0.096 (95 CI= 0.460, 0.268) |
| | | | Hoffi'r ysgol: E.S. = 0.198 95 CI= 0.564, 0.168) |
| | | | Cywirdeb darllen: % E.S. = 0.056 (95 CI= 0.420, 0.308) |

Tabl 2. (Parhad)

| Astudiaeth Gwlad Ymyriad Grŵp ymyriad Grŵp cymharu | | Adroddiad ôl-Canlyniadau Cyd-newidynnau | |
|--|----------------------------------|---|--|
| Pears et al. (2013) | UDA Kids in Transition to School | Gofal maeth ≤ oed n = 102 | Gofal maeth ≤ oed n = 90 |
| Trout et al. (2013) | UDA On the Way Home (OTWH) | Pobl ifanc ag anableddau risg o anableddau sy'n gadael gofal oed n = 47 | Pobl ifanc ag anableddau risg o anableddau/ risg o sy'n gofal n = 41 |
| Zetlin et al. (2004) | UDA Addysg Arbenigol | Gofal maeth ≤ oed n = 60 | Gofal maeth ≤ oed n = 60 |
| | | | mis Sgiliau llythrennedd cynnar E.S. = 0.26 mis; Cynnal mis; cofrestriad mewn mis; lleoliad OR = 0.30 mis; % 6 9 12 CI= 0.12,0.75) |
| | | | mis Sgorau cyflawniad prawf mathemateg: p= .082 Sgorau prawf darllen: p= .448; GPA: p = ns; Presenoldeb dyddiol: p < .03 Statws addysg Heb ei adrodd Nifer yr ysgolion a p < .05 |
| | | | Rhyw; IQ; Math o ofal Ethnigrwydd Addysg plentyndod flaenorol Heb ei adrodd |

Canfu gwerthusiad o'r ymyriad Teach Your Children Well 30 wythnos ar gyfer grwpiau effaith ar ddarllen (E.S. = 0.40), sillafu (E.S. = 0.25, $p = .02$), a chyfrifiannu mathemateg (E.S. = 0.34, $p = .044$), ond nid deall brawddegau. Canfu'r astudiaeth rôl gymedroli ar gyfer sefydlogrwydd ysgol o ran sgorau darllen, wrth i'r ymyriad gael effaith arwyddocaol dim ond pan oedd ansefydlogrwydd yr ysgol yn uchel ($p < .001$) neu'n ganolig ($p = .001$). Roedd tystiolaeth fod ADHD yn ffactor cymedroli hefyd. Gellir esbonio amrywiadau mewn effaith ar draws is-setiau o sgiliau academaidd rhwng yr ymyriadau Teach Your Children Well unigol (Flynn et al., 2011; 2012; Marquis, 2013) a grŵp (Harper 2012; Harper a Schmidt, 2012) gan wahaniaethau yn y fformat unigol a grŵp a'r ffordd y gweithredwyd yr elfennau.

Canfu pum astudiaeth a oedd yn adrodd ar bedwar ymyriad ddim tystiolaeth o effaith. Dangosodd gwerthusiad Green et al. (2014) o Multidimensional Treatment Foster Care for Adolescents ar sail grŵp nad oedd effaith ar sgiliau addysgol nac ieithyddol. Adroddodd gwerthusiad Mooney et al. (2016) o'r Letterbox Club nad oedd effaith ar gywirdeb darllen, darllen a deall na chyfradd darllen. Yn y treial o arbenigwyr addysg, adroddodd Zetlin et al. (2004) am wahaniaethau rhwng y grŵp ymyriad a'r grŵp rheoli ar y waelodlin, ond dim gwahaniaethau sylweddol yn yr asesiad dilynol ar gyfer sgorau cyflawniad prawf mathemateg ($p = .082$) na sgorau cyflawniad prawf darllen ($p = .448$). Canfu'r rhaglen ESTEP nad oedd unrhyw effeithiau ar adnabod llythrennau a geiriau, cyfrifo na deall darnau (Courtney et al., 2008; Zinn a Courtney, 2014). Mae'r awduron yn tybio bod nifer fawr o bobl ifanc yn dechrau derbyn gofal oherwydd problemau iechyd meddwl ac ymddygiad, a gwelir hyn trwy'r ffaith bod 6.5% o'r sampl astudio yn dioddef straen wedi trawma, bod 35.1% yn dweud eu bod wedi dilyn rhaglenni addysgol arbennig cyn yr astudiaeth, a bod 26.1% yn dweud bod ganddynt anabledd dysgu. Maent yn awgrymu nad oedd y myfyrwyr graddedig a ddarparodd yr ymyriad yn meddu ar yr hyfforddiant arbenigol sy'n angenrheidiol i wasanaethu'r bobl ifanc hyn, ac y gallai athrawon arbenigol fod yn asiantau darparu mwy priodol.

Cyflawniad academaidd a chwblhau graddau. Roedd tair astudiaeth a oedd yn adrodd ar ddau ymyriad wedi mesur Cyfartaledd Pwyntiau Gradd (GPA), Datblygiad Addysgol Cyffredinol (GED) neu gwblhau graddau (Zetlin et al., 2004; Courtney et al., 2008; Zinn a Courtney, 2014). Nododd arbenigwyr addysg nad oedd effaith 24 mis ar ôl y waelodlin (Zetlin et al., 2004). Canfu'r rhaglen ESTEP nad oedd effaith ar gwblhau graddau yn yr asesiad 26.8 mis dilynol (Courtney et al., 2008; Zinn a Courtney, 2014).

Statws addysg arbennig. Roedd un astudiaeth, a werthusodd arbenigwyr addysg, wedi asesu statws addysg arbennig (Zetlin et al., 2004). Ar y waelodlin, roedd 18 person ifanc yn y grŵp ymyriad mewn addysg arbennig, ac roedd hyn wedi gostwng i naw yn yr asesiad 24 mis dilynol. Yn y grŵp rheoli, gostyngodd y nifer o 10 i saith. Nid yw arwyddocâd y canfyddiadau hyn wedi'i gyflwyno.

Cwblhau gwaith cartref. Adroddodd un astudiaeth ar gwblhau gwaith cartref. Gwerthuswyd Multidimensional Treatment Foster Care ar gyfer merched ifanc sy'n gadael y system cyfiawnder ieuencid mewn perthynas â chwblhau gwaith cartref ar dri diwrnod

yn ystod cyfnod o wythnos 3 – 6 mis a 12 mis ar ôl y waelodlin (Leve a Chamberlain, 2007). Ar y ddau bwynt, treuliodd y grŵp ymyriad fwy o ddiwrnodau ar waith cartref na'r grŵp rheoli; treuliodd unigolion yn y grŵp ymyriad tua 150% yn fwy o ddiwrnodau mewn wythnos ar waith cartref 12 mis ar ôl y waelodlin, tra bod y grŵp rheoli wedi gweld gostyngiad yn yr amser a neilltuwyd i'r dasg hon.

Presenoldeb yn yr ysgol, gwahardd dros dro a gadael. Roedd pedair astudiaeth a oedd yn adrodd ar bedwar ymyriad wedi asesu presenoldeb yn yr ysgol, a chanfu dwy rywfaint o dystiolaeth o effaith. Roedd Multidimensional Treatment Foster Care ar gyfer merched ifanc sy'n gadael y system ieuencid wedi cael effaith ar y lefel $p < .05$ 12 mis ar ôl y waelodlin (Leve a Chamberlain, 2007). Ni ddangosodd y Fostering Individualized Assistance Programme unrhyw wahaniaeth arwyddocaol mewn absenoldebau eithafol o'r ysgol ($> 40%$ o ddiwrnodau ysgol wedi'u colli) rhwng y grŵp ymyriad a'r grŵp rheoli yn yr asesiad dilynol, ond pan gyfyngwyd y sampl i'r is-set hŷn (11.5 – 16 oed), roedd y grŵp rheoli fwy na dwywaith mor debygol o fod yn absennol o'r ysgol (Clark et al., 1998). Nid oedd gwerthusiad Green et al. (2014) o Multidimensional Treatment Foster Care for Adolescents wedi canfod unrhyw effaith ar bresenoldeb (OR = 2.5, 95% CI = 0.48,13.1). Wrth werthuso arbenigwyr addysgol, canfu Zetlin et al. (2004) nad oedd gwahaniaeth arwyddocaol rhwng y grwpiau ar y waelodlin, ond roedd gwahaniaeth yn yr asesiad 24 mis o blaid y grwpiau rheoli.

Aeth un astudiaeth i'r afael â chyfraddau gwahardd dros dro. Dangosodd y Fostering Individualized Assistance Programme, yn yr asesiad 42 mis dilynol, fod y rhai hynny yn y grŵp rheoli 2.5 gwaith yn fwy tebygol o gael eu gwahardd dros dro am nifer eithafol o ddiwrnodau ($> 1%$ o ddiwrnodau ysgol) (Clark et al., 1998). Pan wahanwyd y boblogaeth yn is-set iau a hŷn, nid oedd effaith arwyddocaol mewn perthynas â'r grŵp iau ond parhaodd yr effaith arwyddocaol mewn perthynas â'r categori hŷn, gyda'r grŵp rheoli mwy na phedair gwaith yn fwy tebygol o gael eu gwahardd dros dro.

Ystyriodd dwy astudiaeth sefydlogrwydd yn yr ysgol a gadael. Adroddodd On the Way Home fod pobl ifanc yn y grŵp rheoli mwy na thair gwaith yn fwy tebygol o adael yr ysgol o gymharu â'r rhai hynny yn y grŵp ymyriad 12 mis ar ôl y waelodlin (E.S. = 0.30, 95% CI = 0.12,0.75) (Trout et al., 2013). Fodd bynnag, nodir bod y ddau grŵp yn tueddu i wneud yn well na phobl ifanc mewn astudiaethau cymharol o boblogaethau o bobl ifanc anabl, sy'n awgrymu bod yr unigolion hyn wedi'u paratoi'n well ar gyfer trosglwyddo o ofal allan o'r cartref. Roedd Clark et al. (1998) wedi mesur cyfraddau gadael yr ysgol hefyd ac ni chanfu unrhyw effeithiau arwyddocaol, hyd yn oed pan rannwyd y grŵp yn is-set iau a hŷn.

Nifer y lleoliadau ysgol. Roedd dau werthusiad a oedd yn adrodd ar ddau ymyriad wedi mesur nifer y lleoliadau ysgol, heb unrhyw arwydd o effeithiolrwydd. Roedd Zetlin et al. (2004) wedi asesu nifer yr ysgolion a fynychwyd gan bobl ifanc cyn cyflwyno arbenigwyr addysgol. 24 mis ar ôl y waelodlin, roedd nifer yr ysgolion a fynychwyd wedi gostwng o gyfartaledd o 1.30 i 1.18 yn y grŵp ymyriad, ac o 1.28 i 1.12 yn y grŵp rheoli. Nid oedd gwahaniaeth arwyddocaol rhwng y grŵp ar lefel y waelodlin, ond roedd gwahaniaeth

arwyddocaol ar y lefel $p < .05$ yn yr asesiad dilynol, sy'n awgrymu canlyniad mwy ffafriol yn y grŵp rheoli. Nid oedd gwerthusiad Clark et al. (1998) o'r rhaglen a gydlynir gan arbenigwyr teuluol wedi canfod unrhyw effaith ar y nifer eithafol o symudiadau o ysgol i ysgol, a ddiffinnir fel mwy na thri lleoliad y flwyddyn.

Y berthynas rhwng athrawon a myfyrwyr. Roedd un ymyriad, sef Head Start, wedi mesur y berthynas rhwng athrawon a myfyrwyr (Lipscomb et al., 2013). Roedd yr ymyriad wedi cael effaith arwyddocaol chwe mis ar ôl y waelodlin ($\beta = 0.30$, $p < .01$), ac effaith anuniongyrchol ar ôl 18 mis.

Ymddygiad yn yr ysgol. Asesodd y rhaglen ESTEP yr effaith ar ymddygiad yn yr ysgol, a oedd yn fesur cyfansawdd o: gyd-dynnu ag athrawon; canolbwyntio yn yr ysgol; cwblhau gwaith cartref; cyd-dynnu â myfyrwyr eraill; a chyrraedd y dosbarth yn brydlon (Courtney et al., 2008; Zinn a Courtney, 2014). Nid oedd yr ymyriad yn dangos unrhyw effaith oddeutu 2 flynedd ar ôl y waelodlin.

Agweddau academaidd. Mesurodd y Letterbox Club yr effaith ar agwedd tuag at ddarllen, a oedd yn cynnwys darllen er pleser a darllen academaidd, yn ogystal â hoffi'r ysgol (Mooney et al., 2016). Nid oedd unrhyw effaith ar y canlyniadau hyn oddeutu wyth mis ar ôl y waelodlin.

Gwerthuso'r broses

Cafwyd data am werthuso'r broses yn ôl cyrhaeddiad, ymlyniad a derbynioldeb yr ymyriad i asiantau darparu a chyfranogwyr.

Aeth tair astudiaeth i'r afael â derbyn ymyriad. Yn y rhaglen ESTEP, dim ond 61% o'r grŵp ymyriad a dderbyniodd y rhaglen (Courtney et al., 2008; Zinn a Courtney, 2014). Eglurwyd hyn gan hyd cyfartalog o 15.3 wythnos rhwng aseinio i'r ymyriad a chychwyn yr ymyriad o ddifrif, gyda 13% yn aros rhwng 24 wythnos a 2 flynedd i ddechrau. O ganlyniad i fyrhoedledd lleoliadau, nid oedd llawer o bobl ifanc wedi'u lleoli mwyach yn y cartref maeth a oedd wedi'i restru ar gyfer tiwtora ar yr adeg cychwyn. Adroddodd yr ymyriad Teach Your Children Well unigol nifer o rwystrau mewndarddol ac alldarddol rhag cymryd rhan, gan gynnwys: gofalwyr prysur; gwrthdaro rhwng gofalwyr a phlant; roedd y plentyn eisoes yn gwneud yn dda yn yr ysgol; salwch gofalwyr; newidiadau mewn lleoliadau pobl ifanc; neu rwystrau ymarferol rhag cwblhau asesiadau gwerthuso (Flynn et al., 2012). O ganlyniad i'r ffactorau hyn, nid oedd 29% o'r grŵp ymyriad wedi cael tiwtora.

Roedd naw astudiaeth a adroddodd ar bum ymyriad wedi cofnodi ymlyniad, ac roedd mesuriadau'n awgrymu amrywiadau mewn arferion gweithredu ar draws astudiaethau. Roedd gwerthusiad Pears et al. (2013) o Kids in Transition to School wedi dangos lefel uchel o ymlyniad, gyda 100% o ddeunyddiau ymyrryd yn derbyn sylw yn y grŵp gofalwyr a 98% yn y grŵp paratoi ar gyfer yr ysgol. Yn y rhaglen ESTEP, canfu Courtney et al. (2008) fod 28% o bobl ifanc wedi cael llai nag 20 awr, bod 33% wedi cael rhwng 21 awr a 40 awr, a bod 28% wedi cael mwy na 40 awr, sy'n golygu bod nifer o gyfranogwyr yn cael llai o ymyrraeth nag a fwriadwyd. Defnyddiodd Green et al. (2014) wedi monitro dos o

Multidimensional Treatment Foster Care for Adolescents, a chanfu, erbyn diwedd yr ymyriad, mai dim ond 45% o'r cyfranogwyr oedd wedi aros yn eu lleoliad, sy'n golygu na ddarparwyd y rhaglen lawn i lawer. Yn yr ymyriad Teach Your Children Well unigol (Flynn et al., 2011; 2012; Marquis, 2013), adroddodd 21 achos am ffyddlondeb uchel, adroddodd 2 am ffyddlondeb canolig ac adroddodd 7 am ffyddlondeb isel. Er bod amrywiaeth o asesiadau o ddarpariaeth ar gael, gan gynnwys holiaduron ar ôl prawf a data perfformiad wythnosol, roedd hi'n anodd asesu ffyddlondeb yn ddibynadwy ar gyfer y cwricwlwm mathemateg, oherwydd bod y fformat cyfrifiadurol a oedd yn dilyn cyflymder yr unigolyn yn fwy llac ac anffurfiol na'r cwricwlwm darllen. Roedd yr ymyriad Teach Your Children Well ar gyfer grwpiau wedi adrodd am broblemau ffyddlondeb i'r cwricwlwm mathemateg hefyd, lle'r oedd tiwtoriaid yn cael trafferth wrth ddarparu (Harper, 2012; Harper a Schmidt, 2012). Er nad oedd Clark et al. (1998) wedi mesur ymlyniad, maen nhw'n taflu mwy o oleuni ar sut y gallai problemau gweithredu ddod i'r amlwg, gan ddweud y gallai amrywiadau mewn asiantau darparu, ansawdd a chysondeb goruchwylwyr ar gyfer yr unigolion hyn, a chyd-destun ehangach gofal cymdeithasol gyda llwythi achosion uchel a phobl ifanc heb gartref parhaol effeithio ar ymlyniad.

Er bod data gwerthuso proses wedi'i gynnwys mewn astudiaethau, prin oedd y cysylltiadau â data canlyniadau neu ddadansoddi cyfryngwr neu gymedrolwr. Gwerthusiad Marquis (2013) o'r ymyriad Teach Your Children Well unigol oedd yr unig astudiaeth i bennu gweithredu fel cymedrolwr ar gyfer canlyniadau ymyriad, gan nodi bod lefelau uwch o ffyddlondeb wrth ddarparu'r cwricwlwm darllen yn cynnig mantais mewn sgorau mathemateg. Roedd yr un duedd yn amlwg yn y cwricwlwm mathemateg, wrth i'r rhai a dderbyniodd lefel uwch o amlygiad wneud yn sylweddol well mewn cyfrifiannu mathemategol.

Roedd pum astudiaeth a oedd yn adrodd ar dri ymyriad wedi archwilio derbynoldeb i asiantau darparu a'r bobl ifanc a oedd yn cymryd rhan. O ran yr ymyriad Teach Your Children Well, dywedodd 79% o rieni maeth y byddent yn ei argymell, a honnodd 14% arall y byddent yn ei argymell yn betrus (Flynn et al., 2011; 2012; Marquis, 2013). Nid adroddwyd ar dderbynoldeb i bobl ifanc, er y trafodwyd ymddygiad heriol a gwrthwynebiad i diwtora. Dangosodd y rhaglen ESTEP wrthdaro â'r nifer fawr o raglenni ymyriad addysgol ychwanegol sydd ar gael, gyda rhai pobl ifanc yn ffafrio dulliau yn yr ysgol yn hytrach na'r rhai hynny a ddarperir yn y cartref, efallai oherwydd eu bod yn achosi llai o stigma (Courtney et al., 2008). Roedd derbynoldeb ymhlith plant yn amrywio yn y gwerthusiad o'r Letterbox Club. Roedd rhai cyfranogwyr yn gwerthfawrogi'r llyfrau unigol, ond roedd rhai'n teimlo nad oedd y deunyddiau ar y lefel iawn neu roeddent wedi derbyn llyfr fel anrheg ar adeg wahanol. Un o'r canfyddiadau allweddol oedd bod damcaniaeth newid yr ymyriad wedi'i seilio ar y rhagdybiaeth y bydd y ffaith bod plant yn berchen ar eu llyfrau eu hunain yn cynyddu eu diddordeb a'u cymhelliant. Fodd bynnag, canfuwyd bod rhai cyfranogwyr eisoes wedi'u 'llethu gan lyfrau' yn hytrach nag yn 'amddifad o lyfrau', ac nid oedd cynyddu mynediad at adnoddau o'r fath yn cynyddu cyfleoedd darllen o reidrwydd (Mooney et al., 2016).

Gwerthusiad economaidd

Nid oedd unrhyw astudiaethau'n cynnwys gwerthusiad economaidd llawn o'r ymyriad.

Hapdreial rheoledig ar waith: Maethu dyfodol iach

Amlygodd argymhelliad gan arbenigwyr hapdreial rheoledig sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd ac y disgwylir iddo adrodd yn fuan. Tynnwn sylw at yr astudiaeth hon i'w chynnwys mewn crynodebau ymchwil yn y maes hwn yn y dyfodol. Grŵp sgiliau llaw yw'r rhaglen Maethu Dyfodol Iach sy'n ceisio lleihau stigma a darparu cyfleoedd i ddysgu cymwyseddau cymdeithasol ac emosiynol o fewn amgylchedd cefnogol. (Taussig et al., 2007; Taussig a Culhane, 2010; Taussig et al., 2012). Darperir sesiynau grŵp am 30 wythnos, sy'n para tua 1.5 awr bob wythnos, ac yn cynnwys dau hwyluswr hyfforddedig a 8 – 10 o blant. Mae'r ymyriad yn cael ei lywio gan y cwricwlwm PATHS, sydd wedi'i seilio ar dystiolaeth, a'r ymagwedd Ail Gam. Yn ogystal, darperir mentora gan fyfyrwyr graddedig mewn gwaith cymdeithasol, sy'n gweithredu fel esiampl dda ac eiriolwr ar ran y person ifanc, gan gyfarfod â nhw am 2 - 4 awr yr wythnos. Mae hapdreial rheoledig wedi cael ei gynnal gyda 156 o blant 9 - 11 oed sydd mewn gofal maeth oherwydd camdriniaeth. Y prif ganlyniad oedd iechyd meddwl, a 15 mis ar ôl y waelodlin, sgoriodd y grwpiau ymyriad yn sylweddol is ar fesurau aml-ymatebydd iechyd meddwl gwael (RR = 0.51, 95% CI = 0.84,0.19). Mesurwyd canlyniadau addysgol eilaidd fel rhan o'r treial ac mae dadansoddiad yn cael ei gynnal ar hyn o bryd.

Trafodaeth

Mae'r adolygiad systematig presennol wedi ceisio canfod effeithiolrwydd ymyriadau addysgol ar gyfer LACYF. Adalwyd pymtheg astudiaeth a oedd yn adrodd ar 12 ymyriad. Roedd dyluniad yr astudiaethau'n cynnwys hapdreialon rheoledig, a ddylai gynnig y dystiolaeth wyddonol fwyaf cadarn. O'r ymyriadau hyn, roedd naw yn awgrymu effaith ar amrywiaeth o ganlyniadau addysgol. Adroddodd pum ymyriad effaith ar sgiliau academiaidd: Kids in Transition (Pears et al., 2013); Headstart (Lipscomb et al., 2013); Teach Your Children Well ar lefel unigol (Flynn et al., 2011; 2012; Marquis, 2013); a Teach Your Children Well 25 wythnos a 30 wythnos ar gyfer grwpiau (Harper, 2012; Harper a Schmidt, 2012). Adroddodd un ymyriad effaith ar gwblhau gwaith cartref: Multidimensional Treatment Foster Care ar gyfer merched sy'n gadael y system cyfiawnder (Leve a Chamberlain, 2007). Adroddodd tri ymyriad effaith ar bresenoldeb yn yr ysgol, gwahardd dros dro neu adael: Multidimensional Treatment Foster Care (Leve a Chamberlain, 2007); Fostering Individualized Assistance Programme, a gafodd effaith ar absenoldebau a gwaharddiadau dros dro eithafol, er y canfuwyd yr effeithiau hyn ar gyfer yr is-set hŷn yn unig i raddau helaeth (Clark et al., 1998); ac On The Way Home (Trout et al., 2013). Adroddodd un ymyriad effaith ar y berthynas rhwng athrawon a myfyrwyr: Head Start (Lipscomb et al., 2013). Mae'r effaith ar nifer y lleoliadau ysgol yn aneglur. Ni ddangosodd unrhyw ymyriadau welliant o ran cyflawniad academiaidd a chwblhau graddau; ymddygiad yn yr ysgol; nac agweddau academiaidd. Nid oedd Multidimensional Treatment Foster Care for Adolescents (Green et al., 2014), y Letterbox Club (Mooney et

al., 2016), na'r rhaglen ESTEP (Courtney et al., 2008; Zinn a Courtney, 2014) wedi canfod unrhyw arwydd o effaith ar unrhyw fesur canlyniad.

Er bod rhai astudiaethau'n dangos trylwyredd methodolegol, roedd y dulliau o'u cynnal ac adrodd arnynt yn amrywio'n fawr. O ganlyniad, ni ddylid gwneud unrhyw ddatganiadau pendant o ran effaith, a dylid trin y canlyniadau uchod yn ofalus. Yn wir, heblaw am Teach Your Children Well ar lefel unigol (Flynn et al., 2011; 2012; Marquis, 2013) a Teach Your Children Well 30 wythnos ar lefel grŵp (Harper, 2012), nid oedd maint y samplau yn y gwerthusiadau'n ddigon mawr i ganfod maint yr effaith a ragwelir neu nid oeddent yn adrodd cyfrifiad pŵer. Roedd yr annigonolrwydd o ran adrodd hefyd yn sicrhau bod nifer o risgiau tuedd, a aseswyd yn unol ag offeryn cydweithredu Cochrane, yn aneglur. Roedd nifer o astudiaethau wedi diffinio eu hunain fel haddreialon rheoledig dim ond oherwydd bod sampl wedi cael ei dyrannu ar hap i grŵp ymyriad neu reoli. Lle yr amlygwyd tuedd, roedd materion perthnasol yn cynnwys: diffyg protocolau ar gyfer y treial er mwyn asesu adrodd canlyniadau dewisol; data anghyflawn gydag athreuliad anghyfartal ar draws grwpiau; llygru; a rheolaeth annigonol ar gyfer dadansoddiad aml-amryweddol trylwyr o gyd-newidynnau allweddol ar lefel unigol, deuluol a chymdeithasol.

Mae llygru'n taflu goleuni ar y cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â chynnal haddreialon rheoledig o fewn cyd-destunau cymdeithasol, lle gall syniadau o 'ofal arferol' fod yn amhendant a gall byrhoedledd poblogaethau ei gwneud hi'n anodd cynnal uniondeb dewis ar hap. Roedd diffiniadau o 'ofal arferol' yn gyfyngedig mewn astudiaethau, a gallwn ond tybio bod amrywiad mawr yn rhyngwladol rhwng lles plant a systemau addysgol, sy'n golygu y gallai effeithiau ymyriad gael eu bychanu mewn rhai achosion lle mae gofal arferol yn fwy cynhwysfawr. Er enghraifft, yn y gwerthusiad o'r rhaglen ESTEP, nid yn unig oedd 12.3% o'r grŵp rheoli yn cael yr ymyriad, ond roedd bron 18.9% yn cael eu tiwtora yn yr ysgol gan ddarparwr gwahanol, a oedd yn tanseilio'r bwriad i drin dadansoddiad ac yn lleihau effaith yr ymyriad o bosibl (Courtney et al., 2008; Zinn a Courtney, 2014). Nodwyd mewn manau eraill bod cymryd rhan mewn treialon yn gallu achosi straen i'r grŵp rheoli, yn enwedig os yw darparwyr yn mynd yn fwy arloesol wrth i amlygiad i wybodaeth am ddulliau newydd achosi iddynt fyfyrion ar eu harferion eu hunain, sy'n golygu bod 'gofal arferol' yn esblygu dros amser (Hawe et al., 2015).

Datgelodd y data gwerthuso proses rai problemau yn ymwneud â darparu ymyriadau, a allai fod yn bwysig wrth ddyblygu'r astudiaeth, yn ogystal â chyflwyno risg camgymeriadau Math 3, lle mae ymyriadau'n cael eu gwrthod am fod yn gynhenid ddiffygiol yn ddamcaniaethol er bod y broblem yn ymwneud â gweithdrefnau gweithredu. Ar y cyfan, darparwyd ymyriadau gyda ffyddlondeb uchel (Flynn et al., 2011; 2012; Marquis, 2013; Pears et al., 2013), er y cafwyd problemau o ran derbyn fel mater o drefn. Mae angen tynnu sylw at y materion hyn yn fwy eglur er mwyn cynyddu dealltwriaeth o ymarferoldeb a derbynoldeb gwahanol ymyriadau, a byddai defnyddio treialon peilot cyn cynnal gwerthusiad llawn yn rhoi cyfle i ddatrys rhai o'r problemau hyn.

Hefyd, mae angen parhaus i ddarparu disgrifiadau manwl o'r nodweddion cyd-destunol penodol sy'n sail i ddarparu ymyriadau a sut maent yn effeithio ar ddamcaniaeth y rhaglen, yn enwedig o ystyried y gallai systemau lles plant ac addysgol amrywio'n fawr o fewn ac ar draws cenedloedd. Yn wir, gall dylanwad cyd-destunau diwylliannol gyfyngu ar ailadrodd effeithiau ymyriad mewn lleoliadau eraill, yn ogystal â chodi cwestiynau

ynghylch faint o addasu sy'n ofynnol. Dangosodd yr adolygiad fod gwerthusiadau wedi'u cynnal mewn ystod gyfyngedig o wledydd, gyda phob un ond dau wedi'u cynnal yng Ngogledd America. Yn yr un modd, Teach Your Children Well oedd yr unig ymyriad i gael ei ailadrodd, er bod hyn yn yr un cyd-destun â'r astudiaeth wreiddiol (Flynn et al., 2011; Flynn et al., 2012; Harper, 2012; Harper a Schmidt, 2012; Marquis, 2013). Felly, mae dilysrwydd allanol canlyniadau ymyriadau presennol yn parhau i fod yn aneglur.

Ffactor allweddol arall a hepgorwyd o'r astudiaethau oedd gwerthusiad economaidd, sef cynnal dadansoddiad cost a budd o'r arbedion cymharol a gynigir o gymharu â gofal arferol. O fewn cyd-destun lle mae defnydd effeithlon ac atebol o adnoddau cyhoeddus yn gynyddol bwysig, mae'n hanfodol deall manteision economaidd ymyriadau newydd. Fel y mae damcaniaeth sefydliadol yn rhagdybio (Rogers, 2003), mae arbedion cost yn faen prawf allweddol wrth asesu ymyriadau newydd i'w mabwysiadu, sy'n awgrymu bod tystiolaeth o effaith yn bwysig ond nid yn ddigonol.

Cyfle i gynnal gwerthusiad gwyddonol cadarn o ymyriadau addysgol

Mae'r defnydd o hapdreialon rheoledig mewn lleoliadau addysgol a gofal cymdeithasol wedi dioddef llu o broblemau y gellid dadlau eu bod wedi cyfrannu at y ffaith bod y treialon hyn wedi'u cynnal yn wael, a gwaethygir y mater hwn gan ansawdd dirywiol adroddiadau (Torgerson et al., 2005; Flynn et al., 2012; Dixon et al., 2014; Mezey et al., 2015). Fel y mae Dixon et al. (2014, tud. 1564) yn tybio, mae dadleuon ynghylch treialon yn deillio o'r dehongliad eu bod yn 'anfoesegol, yn bositifaid, wedi'u mewnfurio'n anfeiriadol o ddisgyblaethau eraill, ac nad ydynt yn gallu cynhyrchu'r sicrwydd a addawant'. Yn wir, bu sawl dadl ynghylch y canfyddiad bod unigolion yn cael eu haseinio i grwpiau rheoli mewn ffordd annheg neu anfoesegol (Gueron, 2008; Dixon et al., 2014; Mezey et al., 2015), fel pe nad yw gwario adnoddau cyhoeddus ar ymyriadau heb dystiolaeth o effeithiolrwydd yn peri ei heriau moesegol ei hun. Ymhellach, mae cyfyngiadau mwy pragmatig wedi cynnwys recriwtio annigonol i sicrhau pŵer ystadegol, ymarferwyr yn osgoi prosesau dewis ar hap trwy gyflwyno eu strategaethau dogni eu hunain, a'r frwydr i sicrhau cyllid i gynnal y treial ei hun (Gueron, 2008; Dixon et al., 2014; Mezey et al., 2015). Fodd bynnag, er gwaethaf yr heriau hyn, mae hapdreialon rheoledig o fewn lleoliadau addysgol a gofal cymdeithasol yn dod yn fwyfwy poblogaidd, ac mae'r gymuned ymchwil wedi galw'n agored am ddiwylliant cryfach mewn perthynas â gwerthusiadau o'r math hwn (Gueron, 2008). Er y gallem groesawu'r symudiad patrymol hwn, o bosibl, lle y defnyddir treialon fel mater o drefn i werthuso ymyriadau cymdeithasol cymhleth, mae'n bwysig parhau i ymwneud yn feiriadol â'u datblygiad a mireinio a thrafod yn barhaus gyfleoedd i gryfhau dulliau o'u cynnal ac adrodd arnynt.

Yn y lle cyntaf, mae angen i ni symud y tu hwnt i ddealltwriaeth o ymyriadau a sbardunir gan ddamcaniaeth fel y dulliau llaw a rheoleiddiedig y canfyddir yn gyffredinol eu bod yn rhan o werthusiadau o dreialon. Yn hytrach, mae ymyriadau cymdeithasol cymhleth yn cael eu dirnad fwyfwy fel 'digwyddiadau mewn systemau', ac mae gwaith Penny Hawe wedi bod yn allweddol wrth ddiffinio rhaglenni yn ôl eu swyddogaethau safonedig yn lle eu cyfansoddiad (Hawe et al., 2004). Felly, pan fydd ymyriadau'n cael eu hailadrodd ar draws lleoliadau, dylem ddisgwyl iddynt ymddangos mewn gwahanol ffyrdd

er mwyn gweddu i nodweddion cyd-destunol penodol, ar yr un pryd ag ysgogi'r un gyfres o brosesau achosol wrth gynhyrchu canlyniadau. Mae modelau rhesymeg, sy'n cyfleu'r llwybr achosol o fewnbynau i ganlyniadau, yn gymhorthion pwysig sy'n caniatáu i ni ddiffinio'r ddealltwriaeth fwy cymhleth hon o ddamcaniaeth ymyrryd (Moore et al., 2014). Fel estyniad o'r gwaith damcaniaethol hwn, bu galwadau diweddar hefyd am gyflwyno modelau rhesymeg dywyll, sy'n ystyried effeithiau niweidiol posibl ymyriadau (Bonell et al., 2015). Yn wir, amlygwyd nifer o ganlyniadau anfwriadol mewn ymyriadau cymdeithasol cymhleth ar gyfer poblogaethau sy'n agored i niwed o ganlyniad i brofiadau negyddol targedu, ond collir y rhain yn aml wrth ddatblygu a gwerthuso rhaglenni.

Yn ail, i ymateb i ddealltwriaethau sy'n esblygu o ymyriadau cymhleth, mae angen i ni sicrhau bod yr hapdreialon rheoledig yn gallu bodloni gofynion gwerthuso. Gallai hyn gynnwys ymgysylltu'n ystyrllon â beirniadaethau sy'n honni nad yw hapdreialon rheoledig yn llwyddo i gyfleu cymhlethdodau ac arlliwiau ein byd cymdeithasol (gweler y drafodaeth gan Dixon et al., 2014), drwy ailadrodd yn barhaus soffistigeiddrwydd y math hwn o astudiaeth o gymharu â'r rhagdybiaethau rhydwythiadol, positifafidd a briodolir iddi'n aml. Mae corff o waith newydd sy'n deillio o realaeth gritigol (Bhaskar, 1978), ac a ymgorfforir mewn hapdreialon rheoledig realaeth, wedi bod yn arwain y ffordd wrth chwalu llawer o'r rhagdybiaethau hyn (Bonell et al., 2012). Fel y mae Bonell et al. (2012) yn honni, mae treialon yn croesawu cymhlethdod, yn hytrach na'i anwybyddu neu ei hepgor. Maent yn rhoi ystyriaeth lawn i achosiaeth gymdeithasol oherwydd yr unig wahaniaeth systematig rhwng y grŵp ymyriad a'r grŵp rheoli yw'r ymyriad, ac nid yw'r broses ymchwil yn tarfu llawer ar ddylanwad byd cymdeithasol yr unigolion. Yn yr un modd, o fewn y dull hwn, mae nodweddion gwahanol leoliadau'n freintiedig o'r cychwyn cyntaf o ganlyniad i bwyslais ar gyfluniadau CMO, lle mae'r gwerthusiad yn canolbwytio ar ddeall sut mae'r cyd-destun yn rhyngweithio â mecanweithiau achosol yr ymyriad wrth gynhyrchu canlyniadau (Pawson a Tilley, 1997). Mae'r doreth o wyddor gweithredu, sy'n cynnig nifer o fframiau damcaniaethol ar gyfer archwilio sut y gallai'r dull o ddarparu ymyriad beryglu effeithiolrwydd, yn taflu ychydig mwy o oleuni ar ddehongli'r data canlyniadau a gyflwynir gan hapdreialon rheoledig (Evans et al., 2015).

Yn drydydd, mae nifer o fframweithiau, damcaniaethau a chofeiriau ym maes iechyd cyhoeddus sy'n gallu cefnogi gwerthusiadau effeithiolrwydd o fewn addysg a gofal cymdeithasol. Mae gan Fframwaith y Cyngor Ymchwil Feddygol ar gyfer Datblygu a Gwerthuso Ymyriadau Cymhleth [y Cyngor Ymchwil Feddygol (MRC), 2000; Craig et al., 2008] lawer i'w gynnig o ran cynhyrchu ymyriadau effeithiol wedi'u llywio gan ddamcaniaeth. Mae'r camau ymchwiliol dilyniannol yn cynnwys: datblygu sail resymegol ddamcaniaethol ymyriad trwy archwilio llenyddiaeth berthnasol ac ymgynghori â rhanddeiliaid; modelu prosesau a chanlyniadau i amlygu 'cynhwysion gweithredol' sylfaenol; cynnal treial archwiliadol i asesu derbynoldeb, recriwtio a chadw, ac i gyfrifo maint y sampl; cynnal treial effeithiolrwydd ar raddfa lawn, sydd hefyd yn ymdrin ag effeithiolrwydd cost; a cham trosiannol i sicrhau bod modd cynyddu'r raddfa ac arferoli. Wrth gynnal y camau hyn, fe allai fod yn ddefnyddiol cyfeirio at restrau gwirio risg tuedd, fel y rhai a gyhoeddwyd gan Cochrane, i ragweld a lliniaru'r ffynonellau tuedd amrywiol a allai ddod i'r amlwg. Gallai arweiniad a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan yr MRC ar

werthuso proses, sy'n archwilio cynhyrchu modelau rhesymeg ac asesu gweithredu, gynnig cymorth wrth werthuso hefyd (Moore et al., 2014).

Yn bedwerydd, mae angen gwella dulliau adrodd hapdreialon rheoledig o hyd ar draws lleoliadau addysgol a gofal cymdeithasol. Fel y dangoswyd gan yr adolygiad systematig presennol, ac a amlygwyd gan Torgerson et al. (2005), mae'r ansawdd wedi bod yn eithriadol o wael ac mae'n anodd gwahaniaethu rhwng astudiaethau sy'n wan yn wyddonol heb ddilysrwydd mewnol neu allanol, a'r rhai yr adroddwyd arnynt yn annigonol yn unig. Mae nifer o brosesau a gweithdrefnau ar gael i wella adrodd. Dylid cyhoeddi protocolau treial sy'n rhoi manylion y prif fesurau canlyniadau a'r mesurau canlyniadau eilaidd sydd i'w gwerthuso. Mae hyn yn bwysig i asesu cyflawnder data canlyniadau ar lefel treial unigol, ond hefyd i ddeall cyd-destun ymyriadau effeithiol a graddau'r duedd gyhoeddi. Dylid adrodd ar ddata canlyniadau trwy lynu wrth ddatganiadau safonedig, megis CONSORT (Safonau Cyfunol Adrodd ar Dreialon). Er bod dadleuon o hyd ynghylch digonolrwydd CONSORT, mae estyniadau cyfredol wrthi'n cael eu datblygu i addasu'r datganiad i ymyriadau cymdeithasol a seicolegol o dan y cyfarwyddyd CONSORT-SPI (Montgomery et al., 2013).

Cyfyngiadau

Ymdriniwyd â chyfyngiadau'r astudiaethau a gynhwyswyd yn yr adolygiad hwn i raddau helaeth trwy'r asesiadau risg tuedd, a myfyrdodau pellach ar gynnal ac adrodd ar hapdreialon rheoledig o fewn lleoliadau addysg a gofal cymdeithasol. Mae'r astudiaethau wedi'u cyfyngu ymhellach trwy ddiffyg dilysrwydd allanol, oherwydd dim ond dau werthusiad a gynhaliwyd y tu allan i Ogledd America. Mae cyfyngiadau'n berthnasol i'r fethodoleg adolygu hefyd. Yn gyntaf, er y cynhaliwyd strategaeth sensitif a chynhwysfawr, daeth i'r amlwg trwy ymgynghori ag arbenigwyr yn y maes fod adroddiadau ar werthusiadau effeithiolrwydd yn ymddangos mewn llenyddiaeth lwyd yn bennaf, a hynny i raddau helaeth ar ffurf traethodau ymchwil heb eu cyhoeddi neu adroddiadau'r llywodraeth (Forsman a Vinnerljung, 2012). Felly, mae'n bosibl na sylwyd ar nifer o werthusiadau. Ac eto, fel y trafodwyd, mae hapdreialon rheoledig yn cael eu defnyddio fwyfwy a disgwylir adroddiad Maethu Dyfodol Iach yn fuan, felly, yng ngoleuni'r cynnydd cyflym hwn, awgrymwn y dylid ailadrodd yr adolygiad hwn yn y dyfodol agos. Yn ail, roedd heterogenedd astudiaethau'n sicrhau bod yr adolygiad wedi'i gyfyngu trwy gyflwyno cyfodiad naratif yn hytrach na meta-ddadansoddiad. Yn drydydd, mae cynnwys hapdreialon rheoledig yn sicrhau nad yw nifer o fathau o 'dystiolaeth' wedi cael eu cynnwys. Fodd bynnag, nod yr adolygiad oedd asesu'n fethodolegol gadernid gwyddonol gwerthuso, ac roedd cyfyngu i'r dyluniad hwn wedi caniatáu ystyried yr amcan hwn yn llawn.

Casgliad

Mae'r adolygiad presennol wedi asesu effeithiolrwydd ymyriadau addysgol sydd wedi'u targedu ar gyfer LACYP. Yn seiliedig ar yr astudiaethau a gynhwyswyd, mae'n rhy gynnar i wneud unrhyw honiadau ynghylch effaith ymyriadau oherwydd ansawdd amrywiol y

dulliau o gynnal astudiaethau ac adrodd arnynt. Felly, er y gallem annog parhau i ddefnyddio haphdreialon rheoledig i gynhyrchu tystiolaeth, mae angen i'r cynnydd hwn gael ei ategu gan fonitro mwy beirniadol o ansawdd methodolegol. Gellir defnyddio arweiniad ar werthuso ac adrodd, fel Fframwaith y Cyngor Ymchwil Feddygol ar gyfer Datblygu a Gwerthuso Ymyriadau Cymhleth a CONSORT-SPI, i gryfhau cynllun yr astudiaeth, a dim ond trwy gyflwyno'r fath drylwyredd a chadernid y gallwn ddechrau dod i gasgliadau ynghylch beth sy'n gweithio, i bwy ac ym mha gyd-destunau.

Cydnabyddiaeth

Ariannwyd y gwaith gan Lywodraeth Cymru. Cynhaliwyd y gwaith gyda chymorth y Ganolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol i Blant (CASCADE). Cynhaliwyd y gwaith gyda chymorth y Ganolfan Datblygu a Gwerthuso Ymyriadau Cymhleth er mwyn Gwella Iechyd y Cyhoedd (DECIPHer), sef un o Ganolfannau Rhagoriaeth Ymchwil Iechyd y Cyhoedd UKCRC. Rydym ni hefyd yn cydnabod yn ddiolchgar y cyllid a gafwyd ar y cyd (MR/KO232331/1) gan Sefydliad Prydeinig y Galon, Ymchwil Canser y DU, y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol, y Cyngor Ymchwil Feddygol, Llywodraeth Cymru ac Ymddiriedolaeth Wellcome, o dan nawdd Cydweithrediad Ymchwil Glinigol y DU.

Cyfeiriadau

- Berger, L.M., Cancian, M., Han, E., Noyes, J. a Rios Salas, V. (2015) Children's academic attainment and foster care. *Pediatrics*, 35(1). Ar gael ar-lein yn: <http://pediatrics.aappublications.org/content/135/1/e109> (cyrchwyd 5 Mawrth 2016).
- Berlin, M., Vinnerljung, B. a Hjern, A. (2011) School performance in primary school and psychosocial problems in young adulthood among care leavers from long term foster care, *Children and Youth Services Review*, 33, 2489–2497.
- Bhaskar, R. (1978) *A realist theory of science* (Hassocks, Harvester Press).
- Bonell, C., Fletcher, A., Morton, M., Lorenc, T. a Moore, L. (2012) Realist randomised controlled trials: A new approach to evaluating complex public health interventions, *Social Science & Medicine*, 75, 2299–2306.
- Bonell, C., Jamal, F., Melendez-Torres, G. J. a Cummins, S. (2015) 'Dark logic': Theorising the harmful consequences of public health interventions, *Journal of Epidemiology & Community Health*, 69, 95–98.
- Clark, H. B., Prange, M. E., Lee, B., Steinhart Stewart, E., Barrett McDonald, B. ac Adlai Boyd, L. (1998) An individualised wraparound process for children in foster care with emotional/behavioural disturbances: Follow-up findings and implications from a controlled study, yn: M. E. Epstein, K. Kutash ac A. Duchnowski (Goln) *Outcomes for children and youth with emotional and behavioural disorders and their families: Programs and evaluation best practices* (Austin, TX, Proed), 513–542.
- Courtney, M., Zinn, A., Zielewski, E., Bess, R., Malm, K., Stagner, M. a Pergamit, M. (2008) *Evaluation of the early start to emancipation preparation – tutoring program Los Angeles County, California: Final report* (Chicago, The Urban Institute, Chaplin Hall Center for Children and National Opinion Research Center).
- Craig, P., Dieppe, P., Macintyre, S., Michie, S., Nazareth, I. a Petticrew, M. (2008) *Developing and evaluating complex interventions: New guidance* (Llundain, y Cyngor Ymchwil Feddygol).

- Dixon, J., Biehal, N., Green, J., Sinclair, I., Kay, C. a Parry, E. (2014) Trials and tribulations: Challenges and prospects for randomised controlled trials of social work with children, *British Journal of Social Work*, 44, 1563–1581.
- Evans, R. E., Murphy, S. a Scourfield, J. B. (2015) Implementation of a school-based social and emotional learning intervention: Understanding diffusion processes within complex systems, *Prevention Science*, 16, 754–764.
- Flynn, R. J., Marquis, R. A., Paquet, M. a Peeke, L. M. (2011) Effects of tutoring by foster parents on foster children’s academic skills in reading and math: A randomised effectiveness trial. Final report of the RESPs for Kids in Care project (Ottawa, Centre for Research on Educational and Community Services).
- Flynn, R. J., Marquis, R. A., Paquet, M., Peeke, L. M. ac Aubry, T. D. (2012) Effects of individual direct-instruction tutoring on foster children’s academic skills: A randomised trial, *Child & Youth Services Review*, 34, 1183–1189.
- Forsman, H. a Vinnerljung, B. (2012) Interventions aiming to improve school achievements of children in out-of-home care: A scoping review, *Child and Youth Services Review*, 34, 1084– 1091.
- Franzen, E. a Vinnerljung, B. (2006) Foster children as young adults: Many motherless, fatherless or orphans. A Swedish national cohort study, *Child & Family Social Work*, 11, 254–263.
- Green, J. M., Biehal, N., Roberts, C., Dixon, J., Kay, C., Parry, E., Rothwell, J., Roby, A., Kapadia, D., Scott, S. a Chamberlain, P. (2014) Multidimensional treatment foster care for adolescents in English care: Randomised trial and observational cohort evaluation, *British Journal of Psychiatry*, 204, 214–221.
- Gueron, J. (2008) The politics of random assignment: Implementing studies and impacting policy, *Journal of Children’s Services*, 3, 9–13.
- Harper, J. (2012) The effectiveness of a group-based tutorial direct instruction program for long-term foster care children: A randomised controlled trial. Traethawd doethuriaeth, Prifysgol Lakehead. Ar gael ar-lein yn: <http://thesis.lakeheadu.ca:8080/handle/2453/385> (cyrchwyd 5 Mawrth 2016).
- Harper, J. a Schmidt, F. (2012) Preliminary effects of a group-based tutoring program for children in long-term foster care, *Children & Youth Services Review*, 34, 1176–1182.
- Hawe, P., Riley, T., Gartrell, A., Turner, K., Canales, C. ac Omstead, D. (2015) Comparison communities in a cluster randomised trial innovate in response to ‘being controlled’, *Social Science & Medicine*, 133, 102–110.
- Hawe, P., Shiell, A. a Riley, T. (2004) Complex interventions: How ‘out of control’ can a randomised controlled trial be? *BMJ*, 328, 1561–1563.
- Higgins, J. P. T. a Green, S. (2011) *Cochrane handbook for systematic reviews of interventions version 5.1.0*. Ar gael ar-lein yn: www.cochrane-handbook.org (cyrchwyd 5 Mawrth 2016).
- Leve, L. D. a Chamberlain, P. (2007) A randomised evaluation of multidimensional treatment foster care: Effects on school attendance and homework completion in juvenile justice girls, *Research on Social Work Practice*, 17, 657–663.
- Lipscomb, S., Pratt, M., Schmitt, S. A., Pears, K. a Kim, H. (2013) School readiness in children living in non-parental care: Impacts of Head Start, *Journal of Applied Developmental Psychology*, 34, 28–37.
- Marquis, R. (2013) The gender effects of a foster parent-delivered tutoring program on foster children’s academic skills and mental health: A randomised field trial. Traethawd doethuriaeth, Prifysgol Ottawa. Ar gael ar-lein yn: <http://www.ruor.uottawa.ca/handle/10393/24324> (cyrchwyd 5 Mawrth 2016).
- Y Cyngor Ymchwil Feddygol (2000) A framework for development and evaluation of RCTs for complex interventions to improve health (Llundain, Bwrdd Ymchwil Gwasanaethau Iechyd ac Iechyd y Cyhoedd yr MRC).
- Mezey, G., Robinson, F., Campbell, R., Gillard, S., Macdonald, G., Meyer, D., Bonell, C. a White, S. (2015) Challenges to undertaking randomised trials with looked after children in social care settings, *Trials*, 16, 206.

- Montgomery, P., Grant, S., Hopewell, S., Macdonald, G., Moher, D., Michie, S. a Mayo-Wilson, E. (2013) Protocol for CONSORT-SPI: An extension for social and psychological interventions, *Implementation Science*, 8, 99.
- Mooney, J., Winter, K. a Connolly, P. (2016) Effects of a book gifting programme on literacy outcomes for foster children: A randomised controlled trial evaluation of the Letterbox Club in Northern Ireland, *Children and Youth Services Review*, 65, 1–8.
- Moore, G., Audrey, S., Barker, M., Bond, L., Bonell, C., Hardeman, W., Moore, L., O’Cathain, A., Tinati, T., Wight, D. a Baird, J. (2014) Process evaluation in complex public health intervention: UK Medical Research Council guidance (Llundain, Rhwydwaith Ymchwil Wyddonol Iechyd y Boblogaeth yr MRC).
- Neale, M. D. (1997) Neale analysis of reading ability – revised (Windsor, NFER-Nelson).
- O’Higgins, A., Sebba, J. a Luke, N. (2015) What is the relationship between being in care and the educational outcomes of children? (Rhydychen, Canolfan Rees ar gyfer Ymchwil ym maes Maethu ac Addysg).
- Pawson, R. a Tilley, N. (1997) *Realistic evaluation* (Llundain, Sage).
- Pears, K. C., Fisher, P. A., Kim, H. K., Bruce, J., Healey, C. V. a Yoerger, K. (2013) Immediate effects of a school readiness intervention for children in foster care, *Early Education and Development*, 24, 771–791.
- Pecora, P.J. (2012) Maximizing educational achievement of youth in foster care and alumni: Factors associated with success, *Children and Youth Services Review*, 34, 1121–1129.
- Rogers, E. (2003) *Diffusion of innovations* (Efrog Newydd, Free Press).
- Sebba, J, Berridge, D., Luke, N., Fletcher, J., Bell, K., Strand, S., Thomas, S., Sinclair, I. ac O’Higgins, A. (2015) The educational progress of looked after children in England: Linking care and educational data (Rhydychen, Canolfan Rees dros Ymchwil ym maes Maethu ac Addysg a Phrifysgol Bryste).
- Shamseer, L., Moher, D., Clarke, M., Ghersi, D., Liberati, A., Petticrew, M., Shekelle, P. a Stewart, L. A. a Grŵp PRISMA-P (2015) Preferred reporting items for systematic review and meta-analysis protocols (PRISMA-P) 2015: Elaboration and explanation, *BMJ*, 349.
- Stone, S. (2007) Child maltreatment, out-of-home placement, and academic vulnerability: A fifteen-year review of evidence and future directions, *Children & Youth Services Review*, 29, 139–161.
- Taussig, H. N. a Culhane, S. E. (2010) Impact of a mentoring and skills group program on mental health outcomes for maltreated children in foster care, *Archives of Paediatrics & Adolescent Medicine*, 164, 739–746.
- Taussig, H. N., Culhane, S. E., Garrido, E., Knudtson, M. D. a Petrenko, C. L. M. (2012) Does severity of physical neglect moderate the impact of an efficacious preventive intervention for maltreated children in foster care? *Child Maltreatment*, 18, 56–64.
- Taussig, H. N., Culhane, S. E. a Hettleman, D. (2007) Fostering healthy futures: An innovative preventive intervention for preadolescent youth in out-of-home care, *Child Welfare*, 86, 113–131.
- Torgerson, C. J., Torgerson, D. J., Birk, Y. F. a Porthouse, J. (2005) A comparison of randomised controlled trials in health and education, *British Educational Research Journal*, 31, 761–785.
- Trout, A. L., Lambert, M. C., Epstein, M. H., Tyler, P., Thompson, R. W., Stewart, M. a Daly, D. L. (2013) Comparison of On the Way Home aftercare support to traditional care following discharge from a residential setting: A pilot randomised controlled trial, *Child Welfare*, 9, 27–45.
- Viner, R. M. a Taylor, B. (2005) Adult health and social outcomes of children who have been in public care: Population-based study, *Paediatrics*, 115, 894–899.
- Vinnerljung, B. a Hjern, A. (2011) Cognitive, educational and self-support outcomes of long-term foster care versus adoption. A Swedish national cohort study, *Children & Youth Services Review*, 33, 1902–1910.
- Zetlin, A., Weinberg, L. a Kimm, C. (2004) Improving education outcomes for children in foster care: Intervention by an education liaison, *Journal of Education for Students Placed at Risk*, 9, 421–429.

- Zetlin, A. G., Weinberg, L. A. a Shea, N. M. (2006) Seeing the whole picture: Views from diverse participants on barriers to educating foster youths, *Children and Schools*, 28, 165–173.
- Zinn, A. a Courtney, M. (2014) Context matters: Experimental evaluation of home-based tutoring for youth in foster care, *Child & Youth Services Review*, 47, 198–204.